Y Lein Ddillad

Grŵp Oedran: 7 - 11

Cynllun gwers 1: Lleoli India yn y byd

Nodau:

Lleoli India mewn perthynas ag ardal leol plant y dosbarth.

Gweithgaredd:

Gosodwch arwydd yn y dosbarth sy'n cyfeirio at y de-ddwyrain (o'ch ysgol). Mewn parau, gofynnwch i'r plant ddefnyddio eu gwybodaeth eu hunain, a mapiau lleol, cenedlaethol a byd eang, i lunio rhestr o lefydd yn y cyfeiriad hwnnw yn ymestyn tuag at India. Dylid rhestru bob gwlad a chyfandir sy'n cael ei basio, a thrafod y dull gorau o deithio. Gallech ymestyn y gweithgaredd drwy ofyn iddynt ddod o hyd i brifddinas bob gwlad sy'n cael ei phasio, a phob môr sy'n cael ei groesi.

Cynllun gwers 2: Ble mae cotwm yn tyfu?

Nodau:

Arfer darllen a defnyddio mapiau o'r byd.

Gweithgaredd:

Gofynnwch i'r plant edrych mewn atlas a nodi, ar amlinelliad o fap, y gwledydd canlynol lle mae cotwm yn tyfu:

Brasil; Sudan; Tsieina; Pacistan; Twrci; Cymanwlad y Gwladwriaethau Annibynnol, gynt yr Undeb Sofietaidd; Mecsico; UDA; yr Aifft; Tanzania; India; Zambia.

Cysylltiadau cwricwlwm:

Cymru
Daearyddiaeth: - Defnyddio atlas, glôb, mapiau a chynlluniau ar amrywiol raddfeydd

Hawlfraint© Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Cynllun gwers 3: Olrhain masnach

Nodau:

Helpu plant i ddeall y cysyniad o fasnach fel gweithgaredd byd-eang.
Casglu tystiolaeth fel ffordd o ymchwilio i destun.

Gweithgaredd:

Yn yr ystafell ddosbarth, gofynnwch i'r plant gynnal arolwg ac edrych ar darddiad cymaint ag sy'n bosibl o eitemau dillad. Fel dosbarth, lluniwch restr o'r holl wahanol wledydd a fasnachwyd gyda hwy. Nawr lluniwch graff i ddangos y gwledydd cynhyrchu mwyaf cyffredin. Efallai yr hoffai'r plant hefyd feddwl am gwestiynau eraill yn eu harolwg. Efallai y byddant yn sylwi bod eu dillad wedi'u gwneud yn y DU, er enghraifft, ond o ddeunyddiau nad ydynt yn tyfu yma, megis cotwm. Fel gweithgaredd arall, gallai'r plant edrych ar fap i ddod o hyd i'r holl wledydd a fu'n masnachu.

Cysylltiadau cwricwlwm:

Cymru
Daearyddiaeth: - Casglu a chofnodi tystiolaeth; dadansoddi tystiolaeth a dod i gasgliadau; defnyddio atlas a glôb. Mathemateg: - Cynrychioli a dehongli data arwahanol gan ddefnyddio graffiau a diagramau.

Cynllun gwers 4: Holi darlun

Nodau:

Ysgogi plant i ddysgu mwy am y testun.
Gosod fframwaith astudio sy'n deillio o'r hyn y mae'r plant eu hunain am ei wybod.
Mae'r gweithgaredd hwn hefyd yn tynnu sylw at ragdybiaethau, agweddau a gwybodaeth gyfredol plant, ac felly mae'n darparu sail ddefnyddiol ar gyfer cynlluniau athrawon.

Gweithgaredd:

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar neu bump. Gosodwch lun o'r **oriel luniau** (Power Point) ynghanol darn mawr o bapur a rhowch un i bob grŵp.
Gofynnwch iddynt edrych yn fanwl ar eu lluniau, gan nodi eu holl gwestiynau ar y papur. Gellir gosod y cwestiynau mewn gwahanol gategorïau:

- y rhai hawdd i'w hateb;
- y rhai sydd angen mwy o wybodaeth o lyfrau neu ffynonellau eraill;
- y rhai sydd heb ateb pendant, ond sy'n arwain at drafodaeth ehangach am y materion sy'n cael eu codi yn y llun.

Hawlfraint© Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Mae'n bwysig i blant ddeall nad oes atebion clir i nifer o gwestiynau. Mae nifer o atebion yn fater o farn, er eu bod o bosib yn swnio'n ffeithiol. Mae'r gweithgaredd hwn yn fwy llwyddiannus os yw'r athro yn arwain y dosbarth cyfan.

Cysylltiadau cwricwlwm:

Cymru
Saesneg: - Ymateb yn briodol i eraill; gwneud cyfraniadau perthnasol; cymhwyso neu gyfiawnhau barn. - Darllen – gwahaniaethu rhwng ffaith a barn. Daearyddiaeth: - Dadansoddi tystiolaeth a dod i gasgliadau; defnyddio ffynonellau eilaidd o wybodaeth.

Cynllun gwers 5: Cyfateb penawdau a lluniau

Nodau:

Cyflwyno penawdau fel ffordd o ehangu gwybodaeth.

Gweithgaredd:

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri, ac o'r **oriel luniau** (Power Point) rhowch un llun ac un pennawd, nad ydynt yn cyfateb i'w gilydd, i bob grŵp. Fel grŵp, gofynnwch iddynt edrych ar y llun a phenderfynu beth sy'n digwydd. Dylid hefyd edrych ar y pennawd a phenderfynu beth allai fod yn y llun cyfatebol.

Ar hap, dewiswch blentyn i ddarllen ei bennawd. Gall unrhyw grŵp 'hawlio' y pennawd hwnnw os yw'n cyfateb i'w llun. Os oes sawl un yn ei hawlio, gall y dosbarth benderfynu pa un sy'n cyfateb. Dylai'r plentyn sy'n dal y pennawd fynd at ddau aelod o'r grŵp â'r llun.

Pan fydd yr holl luniau a phenawdau wedi'u cyfateb, ewch ymlaen at weithgaredd 6 – Gosod lluniau yn eu trefn.

Cysylltiadau cwricwlwm:

Cymru
Saesneg: - Darllen i gael gwybodaeth – tynnu ar wahanol nodweddion testunau i gael ystyr.

Hawlfraint© Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Penawdau lluniau

1. Hadau cotwm yn aeddfedu pedwar mis ar ôl eu plannu. Gelwir y codennau hadau a welir yn y lluniau yn hadlestri. Mae pob hadlestr yn cynnwys tua 30 o hadau. Mae'r hadau wedi'u gorchuddio â miloedd o ffibrau cotwm sy'n gwneud iddynt edrych yn wyn a blewog.

2.Wrth gynaeafu cotwm, mae'r hadau a'r ffibrau yn cael eu casglu gyda'i gilydd. Mae'r menywod yn defnyddio'u dwylo i dynnu'r hadau er mwyn gadael y ffibrau cotwm yn unig, a elwir yn lint. Mae'n bwysig cadw'r lint yn lân, felly maent yn defnyddio lliain. Gosodir yr hadau bychain ar y llawr wrth eu traed.

3. Cyn medru defnyddio'r cotwm i wneud defnydd, rhaid ei nyddu'n edafedd. Mae'r lint yn cael ei ymestyn a'i droi o amgylch yr olwyn nes iddo ffurfio un edau hir. Yn y llun hwn, mae'r fenyw yn troi'r olwyn gyda'i llaw. Gwnaed ei holwyn nyddu allan o olwyn beic.

4. Mewn ffatri, mae llawer o wahanol ffyrdd i droelli'r edafedd, gan ddibynnu at beth y bydd yn cael ei ddefnyddio. Yma, gwelwn edafedd yn cael ei droi yn gonau mawr.

5. Gwehyddu cotwm ar wŷdd llaw. Yn India, mae tua 17 miliwn o bobl yn gweithio fel gwehyddion gwŷdd llaw.

6. Mae'r cotwm hwn yn cael ei liwio â llaw. Mae'r lliwydd yn gwisgo menig i amddiffyn ei dwylo. Gellir lliwio cotwm ar nifer o wahanol gamau, cyn neu ar ôl printio. Mae lliain gorffenedig yn hongian ar y lein, yn aros i gael ei gosod i sychu. Mae dros 300 o wahanol blanhigion yn India sy'n rhoi lliwiau gwahanol.

7. Printio patrymau ar y cotwm gan ddefnyddio bloc pren lle mae cynllun wedi'i gerfio. Mae'r cynlluniau yn aml ar sail blodau. Mae'r bloc yn cael ei osod yn y lliw, ac yna'i wasgu'n uniongyrchol ar y defnydd â llaw. Mae'r mwyafrif o brintio'n cael ei wneud yn nhaleithiau gogledd orllewin India, megis Gujarat.

8. Wedi i'r lliain gael ei liwio a'i brintio mae'n cael ei osod y tu allan i sychu.

9. Gwnïo lliain cotwm i wneud dillad yn y cartref. Mae tua wyth miliwn o bobl yn gweithio yn y diwydiant dillad ledled y byd. Mae menywod yn dueddol o dderbyn llai o arian am eu gwaith.

10. Dewis dillad mewn siop yn y DU. Mae'r diwydiant dillad yn gwneud llawer o arian, ond faint ohono sy'n cyrraedd at bobl y wlad sy'n cynhyrchu'r dillad?

Hawlfraint© Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Cynllun gwers 6: Gosod lluniau yn eu trefn

Nodau:

Adeiladu dealltwriaeth o gamau cynhyrchu cotwm wrth osod y lluniau yn eu trefn.

Gweithgaredd:

Yn dilyn y **cynllun gwers cyfateb lluniau a phenawdau** (gwers 5), bydd gan bob grŵp o dri phlentyn bellach un llun ac un pennawd. Eglurwch fod y lluniau yn dangos taith cotwm o'r cam lle mae'n cael ei gasglu i'r cam lle mae'n cael ei werthu fel eitem orffenedig mewn siop. Gofynnwch pwy sy'n meddwl mai nhw sydd â'r llun cyntaf, a pham. Nawr gofynnwch i'r ail grŵp ddod ymlaen, gan adeiladu dilyniant o luniau fel hyn. Os fydd mwy nag un grŵp o blant yn meddwl mai eu llun hwy yw'r cam nesaf yn y dilyniant, gall yr athro arwain gwaith 'ditectif' drwy gyfeirio at y pennawd a'r llun. Yna bydd yr holl ddosbarth wedi'u gosod y lluniau yn eu trefn.

Gofynnwch i'r plant dreulio amser yn astudio'u lluniau a'u penawdau, gan ddisgrifio yn eu geiriau eu hunain beth sy'n digwydd. Yna dewch yn ôl at eich gilydd, gyda'r lluniau mewn trefn eto. Dylai'r plant fod yn barod i ateb cwestiynau am eu lluniau.

Cysylltiadau cwricwlwm:

Cymru
Gwyddoniaeth: - Deunyddiau a'u nodweddion – deunyddiau sy'n newid. Saesneg: - Darllen i gael gwybodaeth – tynnu ar wahanol nodweddion testunau i gael ystyr.

Hawlfraint© Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Cynllun gwers 7: Gwneud Print

Nodau:

Helpu plant i werthfawrogi gwaith arlunwyr a chrefftwyr a defnyddio gwybodaeth yn eu gwaith eu hunain.

Paratoi:

Cyn cynnal y gweithgaredd hwn, gall fod yn ddefnyddiol cael rhai enghreifftiau o batrymau defnydd o India. Maent ar gael mewn siopau Oxfam, neu o bosib i'w benthyg o ganolfan Datblygu Addysg.

Bydd angen defnydd cotwm, paent poster neu acrylig, rholer a hambwrdd paent. Gallwch ddefnyddio unrhyw beth mwy neu lai i wneud print. Dyma rai awgrymiadau: ar gyfer printiau tatws, cyllell a hanner taten i bob disgybl; ar gyfer printiau ysbwng, darn o sbwng wedi'i dorri i siâp; ar gyfer torluniau leino, bloc leino ac offer torri; ar gyfer printiau cerdyn, cerdyn trwchus, darnau o gordyn ayyb. Mae blychau matsis hefyd yn dda ar gyfer blociau printio.

Gweithgaredd:

Dangoswch ystod o batrymau defnyddiau o India i'r plant. Trafodwch pa ddelweddau y gallai disgyblion eu defnyddio i ddangos eu cymuned eu hunain. Nawr gofynnwch i ddisgyblion wneud eu printiau eu hunain gan ddefnyddio'r gwrthrychau yr ydych yn eu darparu. Efallai y byddent yn hoffi arbrofi gydag amrywiol batrymau, gan ymarfer ar bapur newydd i ddechrau.

Cysylltiadau cwricwlwm:

Cymru
Celf a dylunio: - Swyddogaethau a phwrpas artistiaid, crefftwyr a dylunwyr sy'n gweithio mewn gwahanol adegau a diwylliannau; defnyddio ystod o ddeunyddiau a dulliau; ymchwilio i gelf, crefft a dylunio... mewn amrywiaeth o ffurfiau, arddulliau a thraddodiadau.

Hawlfraint© Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Cynllun gwers 8: Masnach Deg

Nodau:

Helpu'r plant i ddatblygu cysyniad am Fasnach Deg.

Gweithgaredd:

Llungopïwch y **daflen waith: Straeon Masnach Deg** (isod) a'i thorri. Nawr rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar. Rhowch stori un person i bob grŵp. (Gall rhai grwpiau gael yr un stori, yn dibynnu ar faint y dosbarth.) Gofynnwch i'r plant ddarllen eu straeon a siarad am amodau gwaith y person hwn. Beth sy'n dda amdanynt? Beth ellid ei wella?

Yna dylai'r plant ddychmygu eu bod yn gweithio ar ran cwmni yng Nghymru sy'n gwerthu dillad yn siopau'r stryd fawr. Mae'r cwmni am sicrhau eu bod yn prynu dillad gan gwmnïau cynhyrchu sy'n trin eu gweithwyr yn deg. Fel grŵp, lluniwch reolau y gellid eu defnyddio. Gallech gyflwyno elfennau o'r rhestr isod iddynt.

Fel dosbarth trafodwch beth sy'n gwneud masnach yn deg neu annheg? Beth all disgyblion sy'n prynu dillad ei wneud i sicrhau bod y gwneuthurwyr yn cael eu trin yn deg? Gallant ysgrifennu at gwmnïau i ddangos eu bod yn meddwl am y mater hwn, neu gynnal arolwg i weld beth yw barn pobl am fasnach deg, a'i anfon at fanwerthwyr. (I ysgogi trafodaeth, dywedwch wrth y dosbarth pan fyddant yn talu £20 am wisg newydd, fel arfer £3 yn unig fydd y person a'i gwnaeth yn ei dderbyn – ac weithiau llawer llai na hyn; rhai ceiniogau yn unig.)

Cysylltiadau cwricwlwm:

Cymru
Daearyddiaeth: - Materion daearyddol testunol; cyd-destun daearyddol ehangach; cyd-ddibyniaeth. Saesneg: - Drama – addasiad ar y pryd a gweithio mewn rôl.

Mwy o weithgareddau Masnach Deg

- Chwarae rôl. Gallai plant chwarae rôl i greu sgwrs rhwng gwneuthurwr dillad yn India neu weithiwr cartref, a manwerthwr yn gwerthu'r dilledyn hwnnw mewn siop ffasiynol. Gellid defnyddio'r lluniau fel man cychwyn.
- Gallai'r dosbarth wahodd rhywun sy'n ymwneud â'r diwydiant masnach neu decstilau i'r dosbarth (gweithiwr siop, gweithiwr ffatri, gweithiwr cartref) i siarad am eu diwrnod gwaith. Yna gallai plant ysgrifennu 'Diwrnod ym mywyd ...', gan gymharu'r person hwnnw gydag un o'r rhai yn y diwydiant dillad.

Hawlfraint© Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

- Gallai'r dosbarth ysgrifennu at undeb lafur a dysgu mwy am amodau gwaith a chodau iechyd a diogelwch y wlad hon. Yna gellid eu cymharu gyda'r straeon.
- Gallai'r plant gynllunio poster yn annog pobl i brynu nwyddau masnach deg, neu hysbysu pobl beth yw masnach deg.
- Gallai'r plant ysgrifennu llythyr neu anfon ebost at fanwerthwr i dynnu sylw at eu barn ar fasnach deg.
- Gall ysgolion ddod yn Ysgolion Masnach Deg, ewch at www.fairtrade.org.uk/schools

Cod 'dillad glân'
Byddwn yn prynu oddi wrth wneuthurwyr sy'n:

- Talu cyflogau rhesymol i'w gweithwyr
- Rhoi sicrwydd swyddi i'w holl weithwyr
- Rhoi o leiaf un diwrnod yr wythnos o seibiant i weithwyr
- Rhoi diwrnod gwaith wyth awr, gyda thoriadau
- Peidio gorfodi pobl i weithio oriau ychwanegol
- Talu arian ychwanegol i bobl am weithio oriau ychwanegol
- Sicrhau bod gweithlefydd yn ddiogel

Edrychwch ar wefan Make Trade Fair am fwy o wybodaeth:
http://www.maketradefair.com/en/index.htm neu www.fairtradewales.com

Hawlfraint© Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Taflen waith: Straeon Masnach Deg

Dyma brofiadau pum person gwahanol yn y diwydiant dillad:

1. Mae Suresh yn gweithio fel gwehydd cartref yn India

"Rwy'n gweithio fel gwehydd gwŷdd llaw. Nid oes unrhyw waith arall yn yr ardal hon. Rwy'n dechrau gweithio am 6 y bore ac yn gorffen am 9 y nos. Rwy'n cael asthma o'r llwch sy'n dod o'r edafedd wrth i mi wehyddu. Mae gen i broblemau iechyd eraill gan fy mod yn eistedd drwy'r dydd. Rwy'n gwerthu fy nefnydd i fasnachwr sy'n ei werthu ymlaen i rywun arall. Rwy'n gwybod fy mod yn derbyn pris isel iawn, ond wn i ddim i bwy arall y gallaf werthu fy nefnydd. Mae fy nheulu yn helpu gyda'r gwaith drwy droi'r cotwm a gosod yr edau ar y gwŷdd gyda mi."

2. Mae Mira yn gweithio mewn ffatri yn India

"Rwy'n gweithio mewn ffatri fawr yng ngorllewin India sy'n gwneud defnydd i'w werthu dramor. Mae'r cyflog yn dda ac mae'r menywod yn ennill yr un faint â dynion. Rwy'n gweithio rhwng 7 am a 3.30 pm, gyda hanner awr i ginio a dau doriad te. Mae'r gwaith yn swnllyd iawn, ond o leiaf mae digon o olau ac awyr. Rwy'n derbyn 15 diwrnod o wyliau cyflogedig y flwyddyn, ac os oes yn rhaid i mi weithio ar ddiwrnod gŵyl, rwy'n derbyn mwy o arian. Os fyddaf yn sâl, ni fyddaf yn colli cyflog. Os fyddaf yn cael babi, byddaf yn cael cyflog wrth gymryd ychydig o amser i ffwrdd o'r gwaith."

3. Mae Shanti yn gweithio mewn ffatri yn India

"Rwy'n gweithio mewn ffatri fawr sy'n gwneud dillad i'w hallforio i Brydain. Rwy'n codi am 5 y bore ac yn gwneud gwaith tŷ fel casglu dŵr, coginio a glanhau cyn gadael am y gwaith. Rydym yn gweithio rhwng 9 am a 5 pm. Yn ystod y dydd rydym yn cael dau doriad te byr a hanner awr i ginio. Mae'r ffatri yn dywyll ac yn medru bod yn boeth iawn gyda'r holl beiriannau. Os oes archeb fawr o ddillad o Brydain, rhaid i ni weithio oriau ychwanegol. Yn aml iawn rydym yn gweithio drwy gydol y nos ac yna'r diwrnod canlynol. Os fyddwn yn gwrthod, gallwn golli ein swyddi. Yn ystod y sesiynau hir hyn rydym yn hanner cysgu, a gall damweiniau ddigwydd pan fo pobl yn flinedig. Pan gefais fy mabi, ni chefais unrhyw amser i ffwrdd nac arian. Roedd yn rhaid i mi ddod yn ôl yn syth. Mae fy merch sy'n 14 oed yn gofalu am y babi."

Hawlfraint© Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

4. Mae Chandra yn gweithio dros fudiad gwehyddu bychan yn India

“Rhai blynyddoedd yn ôl ymunais gyda gwehyddion eraill sy’n gwerthu eu defnyddiau i fudiad Masnach Deg. Rydym yn derbyn pris teg am ein gwaith. Mae’n waith caled, ond nid oes yn rhaid i mi deithio’n bell i weithio. Beth bynnag, rwy’n gwybod y bydd y defnydd y byddaf yn ei wehyddu yn cael ei brynu. Mae hyn yn rhoi sicrwydd swydd i mi, sy’n bwysig yn fy nheulu. Mae fy ngŵr yn gweithio fel labrwr fferm. Mae ganddo lawer o waith yn ystod y cynhaeaf, ond ar adegau eraill, nid oes ganddo waith. Oni bai am fy nghyflog, ni fyddai modd i ni fwydo ein pedwar o blant. Gyda’m cyflog, gallaf dalu i’m plant fynd i’r ysgol."

5. Mae Karen yn gweithio o’i chartref yn y DU yn gwnïo coleri.

“Rwy’n gweithio o’m cartref ym Manceinion yn gwnïo coleri ar gyfer cwmni mawr. Dechreuais y gwaith hwn oherwydd roedd angen yr arian arnom, ac roedd modd i mi edrych ar ôl y plant a gweithio’r un pryd. Rwy’n cael fy nhalu fesul y nifer o goleri yr wyf yn eu gwneud. Rwy’n gweithio o 7 am hyd at 9 pm i orffen digon. Weithiau mae fy nghyflog yn hwyr. Rwy’n gweithio tua 36 awr yr wythnos ac yn derbyn tua £46 yr wythnos. Os ydwyf yn sâl, fedra i ddim gwnïo, ac felly byddaf yn colli fy nghyflog. Mae’r llanast o’r gwaith yn broblem. Mae’r llwch yn yr awyr yn rhoi gwddf tost i mi, ac mae fy nwylo’n flinedig o hyd. Pan fo’r plant yn yr ysgol, rwyf hefyd yn unig iawn yn gweithio wrth fy hun drwy’r dydd."

Hawlfraint© Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu’r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.